

CYNGOR CYMUNED LLANLLECHID LLANLLECHID COMMUNITY COUNCIL

Clerc a Phrif Swyddog Cyllid
Clerk and Chief Financial Officer

Donna Watts

01248 602131

CyngorLlanllechid@ogwen.org

26 Stryd Fawr

Bethesda

Gwynedd

LL57 3AE

Cofnodion Cyfarfod Cyffredinol a gynhaliwyd dros Zoom ar nos Iau 12 Tachwedd, 2020 am 18.30

1. PRESENNOL:

Ward Llanllechid Isaf

Y Cynghorydd Evan Jones

Y Cynghorydd Geraint Hughes

Y Cynghorydd Margaret Fernley

Y Cynghorydd Megan Tomos

Y Cynghorydd Wyn Bowen Harris

Ward Llanllechid Uchaf

Y Cynghorydd Kevin Williams

Y Cynghorydd Jên Morris

Croesawyd pawb i'r cyfarfod gan y Cadeirydd y Cyng. Geraint Hughes.

2. Ymddiheuriadau gan y Cyng. Dafydd K Jones ac Alun Thomas.

Nodwyd fod Cyng. Myfanwy Jones wedi ymddiswyddo. Y Clerc i ddanfôn llythyr o ddiolch iddi hi am ei holl wasanaeth fel cynghorydd. Y Clerc wedi hysbysu'r adran etholiadau yn Nghyngor Gwynedd, a'r sedd wag wedi gael ei hysbysu. Os na dderbynnir cais am etholiad erbyn y 27ain o Dachwedd, llenwir y sedd wag gan y Cyngor Cymuned.

3. Geraint Williams, Swyddog Adnoddau Naturiol ac Amaeth, Partneriaeth Tirwedd y Carneddau

Penderfynwyd gwahodd Geraint i'r cyfarfod yn dilyn cyflwyniad gan Beca Roberts, Swyddog Ymgysylltu, yn y cyfarfod diwethaf. Cyflwynodd Geraint ei hun i'r cyngor, ac esboniodd ei rôl o fewn y sefydliad, ac yno rhoid y cyfle i'r aelodau ofyn cwestiynau. Roedd y sesiwn byr yn ddefnyddiol iawn a bydd Geraint yn rhoid adborth i'r cyngor unwaith y bydd wedi siarad â Cyfoeth Naturiol Cymru ynghylch materion ar y mynydd, sy'n cynnwys eithin ar Foel Faban a hen bont dros Afon Caseg.

4. Cofnodion

Penderfynwyd derbyn a chadarnhau cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 8 Hydref, 2020.

5. Materion yn codi o'r cofnodion

Llwybr cyhoeddus yn Tan y Garth – draen o dan y ddaear wedi rhoi yn un o'r caeau, sy'n rhwystr o'r llwybr cyhoeddus. Nid oes dim ymateb gan Cyngor Gwynedd, y Clerc i gysylltu drwy ebost/ffôn i ofyn am diweddariad, mae'r ffermwr wedi cynnig cwblhau'r gwaith ei hun pe bai Cyngor Gwynedd yn darparu'r pibellau.

Wal Maes y Groes – adroddwyd bod car wedi taro'r wal ar y gornel unwaith eto a difrodi'r wal. Cyngor Gwynedd wedi cadarnhau y bydd Dinas Contracting yn cwblhau'r gwaith cyn gynted a phosib.

Lôn Goed – cylfat diffygiol yn ngwaelod y ffordd. Y gwaith bellach wedi gael ei gwblhau.

Wern Bach – twll yn y ffordd. Y Cyng. Dafydd Meurig i holi am ddiweddariad.

Clwb Rygbi Bangor – pryderus am y golau llachar sydd ar y caeau dros y gaeaf. Traffig ar yr A55 yn cael eu dallu. Y Clerc wedi cwblhau'r ffurflen cwyn gan yr adran gorfodaeth, Cyngor Gwynedd.

Llwybrau cyhoeddus – llawer o ddryswch yn enwedig ar ddechrau'r cyfnod clo ar ba lwybrau oedd y rhai cyhoeddus o gwmpas Fferm Tan y Garth. Cyng. Jên Morris wedi cysylltu gyda'r Swyddog Llwybrau yng Nghyngor Gwynedd, dim ymateb hyd yn hyn. Cyng. Jên Morris i ddanfôn yr ebyst ymlaen i'r Clerc, a'r Clerc i holi'r Swyddog Llwybrau am ddiweddariad.

Ysbwriel/Biniau – Adroddwyd Cyng. Megan Tomos bod y 3 bag ysbwriel sydd wedi gael ei gadael yn ngwaelod Parc Main dal yno. Y Clerc i holi Cyng. Dafydd Meurig a Cyngor Gwynedd.

Maes y Groes – wedi derbyn ymateb gan Rhydian Roberts, YGC. Nodwyd Cyng. Evan Jones bod y canlynol o dan ystyriaeth:

- Gosod synwryddion sy'n rhoi mesuriadau yn fwy aml,
- Gosod camerau sy'n rhoi delwedd 'real time' o gyflwr sgrin,
- Trefniadau gwahanol ar gyfer i sgrin i wella ei berfformiad,
- Gosod synhwyrdd arall i fonitro lefel y gro yn yr ail agoriad uwch i fyny.

Tai'n Lon – Tendr am y gwaith wedi mynd allan, ond ddim ymateb. Nodwyd fod y gwaith wedi mynd allan ar dendr eto.

Terfynau wal mynydd ochrau Dol Awen a Thy'n y Maes – Stad Penrhyn wedi ymateb i egluro bod hwn yn fater i'r tenant ac eu bod nhw yn parhau i siarad gyda Mr David Williams mewn ymgais i gael wedi'i gwblhau. Y Clerc i holi am ddiweddariad.

Paragleidio ar Moel Wnion – wedi derbyn ymateb gan Alan Pritchard, Warden Parc Eryri – Alan wedi holi Dewi Roberts, Ymddiriedolaeth Cenedlaethol am cytundeb.

Wal ger Cae Chwarae Talybont – y wal wedi gael ei thrwsio.

Biniau halen – y Clerc i ddanfôn y rhestr at Cyngor Gwynedd.

Eglwys Llan – y Clerc i gael pris gan contractwr i dorri a thacluso'r fynwent, ond heb dderbyn ymateb. Y Clerc i holi eto.

Prosiect i Bartneriaeth Ogwen – y Clerc i holi Meleri Davies os oes modd edrych i mewn i gael tim agor draeniau/cynnal a chadw ar cyd gyda'r Cyngor Cymunedau eraill. Cyng. Geraint Hughes yn awgrymu cynnal astudiaeth dichonoldeb i sefydlu a rhedeg 'Gang Dyffryn Ogwen' i wneud gwaith megis torri gwellt, cynnal a cadw elfennol caeau chwarae, clirio ysbwriel.

6. Taliadau

Awdurdodwyd y taliadau canlynol:

D W Griffith – atgyweirio wal Cae Chwarae Talybont

£120.00

7. Cae chwarae Tal y Bont

Cyng. Margaret Fernley yn bryserus iawn or gost o cynnal a chadw'r caeau chwarae. Nodwyd fod angen ail-adolygu'r dogfennau perthnasol. Y Clerc i holi Cyng. Dafydd Meurig am y dogfennau. Tywydd wedi bod yn rhy wlyb i gael toriad arall cyn y gaeaf. Y Cyng. Kevin Williams i ofyn i'r contractwr danfon anfoneb am dorri'r cae ym mis Awst.

8. Y Mynydd

Derbyniwyd adroddiad gan y Bugail, a bod achos o gor-borri ar y Mynydd.

9. Gohebiaeth

Cyflwynwyd – Gwasanaeth Polisi Cynllunio ar y Cyd – Gwynedd a Môn – danfon sylwadau erbyn 27 Tachwedd 2020.

10. Adroddiadau gan gynrychiolwyr

Partneriaeth Ogwen – derbyniwyd Adroddiad Cynnydd gan y Bartenriaeth.

Canolfan Cefnfaes – Cyng. Jên Morris wedi mynychu Grwp Llywio Canolfan Cefnfaes, ac wedi rhoid adroddiad byr i'r aelodau.

Gweithdy Arlein – Cynnal Adeiladau a Chartrefi Unigryw Ardaloedd y Llechi - Cyng. Megan Tomos wedi mynychu'r gweithdy hwn oedd yn ymgynghori ar ganllaw pensaerniol.

Llwybr Cyhoeddus rhwng Mignant i Tan y Marian – yn dilyn llifogydd ofnadwy, mae aelod o'r cyhoedd wedi syrthio a brifo. Clerc i hybysu'r swyddog llwybrau.

Coeden wedi disgyn ger Ogwen Bank – y Clerc i hysbysu Cyngor Gwynedd.

Talybont Uchaf, Bill Higham Marine - problemau yn parhau gyda achosion cyson o yrru'n gyflym a thraffig trwm. Y Cyng. Dafydd Meurig wedi cyfarfod ar y safle ar y 12fed o Dachwedd, y Clerc i holi am ddiweddariad.

11. Penderfyniadau Cynllunio:

C20/0154/21/CC

Maes Carafannau Ogwen Bank, Bethesda

Torri a thocio coed sy'n gorchymyn gwarchod coed

Penderfyniad: Ar y gweill.

C19/0950/21/LL

Tir gyferbyn a Maes Bleddyn, Bethesda

Codi 30 tŷ sy'n cynnwys 15 fforddiadwy, mynedfa newydd, parcio ynghyd a seilwaith cysylltiedig

Penderfyniad: Ar y gweill.

NP3/21/20B

Bryn Hall, Llanllechid

Dymchwel y strwythr cefn presennol, adeiladu estyniadau unllawr ar yr ochr a cefn a gosod ffenstri to

Penderfyniad: Caniatwyd gydag amodau.

C20/0691/21/AC

Bryn Derwas, Talybont

Diwygio amod 2 o ganiatad rhif C20/0332/21/DT er mwyn creu swyddfa uwchben y modurdy

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

C20/0504/21/LL

Tir ar Fferm Corbri, Llanllechid

Codi ty fforddiadwy un llawr, mynedfa, llecynnau parcio, tanc septig ynghyd a thanc cynaeafu dwr

Penderfyniad: ar y gweill.

NP3/21/7B

Ty'r Mynydd Llanllechid

Gosod uned trin carthion uwchben y ddaear.

Penderfyniad: Caniatawyd gydag amodau.

Ceisiadau Cynllunio:**C20/0847/21/DT**

Pandy Uchaf, Pont y Pandy

Dymchwel y modurdy presennol a chodi estyniad deulawr yn ei le ynghyd ac estyniadau eraill i'r ty a chodi modurdy newydd gerllaw.

Penderfyniad: Dim sylwadau.

12. Materion Brys

Pwyllgor Cyllid – Y Clerc i ofyn wrth y cyn-glerc pryd oedd y cyfarfod diwethaf.